

Ein hardal Leol

Penderfynwyd dewis ‘**Ein hardal leol**’ fel y prif thema. Darpara gyfle i addysgu'r hyn sydd gan yr ardal tu allan i furiau'r ysgol ei gynnig gan ddatblygu sgiliau ADCDF y dysgwyr (APADGOS, 2008). Amlinellir cyfleoedd cyfoethog drwy'r maes dysgu a phrofiadau 'Dyfiaethau' o'r cwricwlwm newydd i "astudio'r amgylchedd lleol a dysgu o brofiad pobl, sefydliadau a busnesau yn y gymuned" (Donaldson, 2015, t. 46). Drwy astudio'r thema hwn bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â'u cymuned ac yn dod i ddeall sut gallent gyfrannu i'r amgylchedd (Donaldson, 2015). Ceir nifer o gyfleoedd i integreiddio llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn bwrpasol i fewn i'r addysgu. Rhennir y thema i ddau is-thema o fewn y modelau sef, 'Gofalu am yr Amgylchedd' ag 'Y Goedwig Leol'.



“Literacy, numeracy and ICT should form the new core of the primary curriculum”.

(Rose, 2009, t. 21)



(Donaldson, 2015, t.40-41)
<https://gov.wales/docs/deall/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>

Cwricwlwm newydd yng Nghymru

Argymhellir Donaldson (2015) dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cael eu hystyried fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn y cwricwlwm newydd. Noda Estyn (2016) bod angen sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr drosglwyddo'r sgiliau i feysydd eraill. Golyga hyn bod angen i athrawon integreiddio'r cyfrifoldebau i fewn i'r meysydd gan bod y sgiliau trawsgwricwlaidd yn hanfodol i ddysgwyr medru "cymryd rhan yn llwyddiannus a hyderus yn y byd modern" (Donaldson, 2015, t.40). Cydnabyddai Donaldson (2015, t.14)bwysigrwydd o sicrhau bod athrawon yn darparu ystod o brofiadau perthnasol bydd yn helpu'r dysgwyr i wynebu "heriau'r dyfodol fel dysgwyr gydol oes". Atgyfnerthir hyn hefyd gan Kirsty Williams sy'n nodi bod addysgu trawsgwricwlaidd yn "hanfodol yn y byd modern" (Williams, 2016).

Hierarchaidd Model 1

Dysgu Seiliedig ar Thema Model 2

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Wrth gyfuno'r hyn mae'r dysgwyr wedi eu ddysgu, gofynnir iddynt greu poster ar beth sydd angen iddynt wneud i helpu'r amgylchedd. Caiff y dysgwyr gyfle i gyfuno'r holl wybodaeth drwy "greu a golygu cydrannau aml-gyfrngol er mwyn datblygu testun a delwedd" (LLC,2016). Byddant hefyd yn "defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas a'r darlennydd" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.25). Drwy wneud hyn bydd y dysgwyr yn medru tyfu i fod yn unigolion sy'n dangos hoffer a charedigrwydd tuag at yr amgylchedd leol (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015).

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Byddir yn ystyried sut gall yr hyn mae'r dysgwyr yn eu wneud niweidio'r amgylchedd leol (Yr Adran Addysg Sgiliau, 2015). Cychwyn meddwl sut gallan nhw ofalu am yr ardal leol. Dod i ddeall bod gweithredoedd pobl dynol yn gallu cael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Dysgu y "gellir ailgylchu rhai pethau ac aildefnyddio pethau eraill" (APADGOS, 2008, t. 27).

Eir allan i arsylwi a chasglu'r sbwriel sydd o gwmpas yn y parc lleol cyfagos i'r ysgol. Gofynnir cwestiynau i'r dysgwyr ynglŷn â'r hyn maent yn eu gweld. Disgwylir eu bod yn "cyfrannu i drafodaethau" a "chynnig atebion priodol i gwestiynau" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 14). Defnyddio'r sbwriel i greu 'pictogram' drwy grwpio'r sbwriel yn ôl deunydd e.e. papur, plastig. Bydd angen i'r dysgwyr "casglu a chofnodi data o pictogramau lle bo'r symbol yn cynrychioli uned" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.37).

Dewiswyd y model 'Hierarchaidd' i addysgu'r thema 'Gofalu am yr Amgylchedd'. Gwneir hyn oherwydd ei fod yn cynnig cyfle i ddefnyddio'r maes 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd' i gyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr o sut rydym ni'n niweidio'r amgylchedd drwy'r maes "Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol". Mae'n darparu cyfle hefyd i gyfuno'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd i fewn i'r addysgu.

Blwyddyn 2

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Edrychir ar sut gall ddysgwyr fod yn garedig i'r amgylchedd gan ystyried yr hyn maent yn eu wneud o ddydd i ddydd. (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015). Anogir dysgwyr i ystyried ymddygiad personol h.y. effaith yr hyn a wneir ar yr amgylchedd e.e. tafu sbwriel, gwastraffu dŵr, diffyg diffodd golau a.y.b.

Gwneir hyn drwy edrych ar luniau o'r amgylchedd sy'n amlgyr gwahanol bethau sy'n ei niweidio. Gofynnir i'r dysgwyr "gyfrannu i drafodaeth" a "mynegi barn, gan rhoi rhesymau" wrth arsylwi ar y lluniau (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14). Anogir y dysgwyr i ystyried eu teimladau gan fynegi sut maent yn teimlo am yr hyn maent yn eu drafod wrth dadansoddi cynnwys y lluniau (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015).

Addaswyd o (Barnes, 2015, t. 66)

Manteision

- ✓ Dull fwyaf cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio i addysgu'n drawswricwlaidd.
- ✓ Dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn un maes o'r cwricwlwm gan ddefnyddio elfen o faes arall i'w cefnogi.
- ✓ Gall athrawon defnyddio'r meysydd maent yn hyderus ynddo i gynorthwyo'r meysydd gwannach.
- ✓ Mae'r model hefyd yn cynnig cyfle i ddysgwyr fedru gwneud cysyll-

Cyfngiadau

- ✗ Gall un faes gael fwy o sylw na feysydd eraill o'r cwricwlwm.
- ✗ Peryg bydd meysydd megis cerddoriaeth, celf a dawnsio ond yn cael ei ddatblygu i gefnogi datblygiad ym maes arall. (Barnes, 2015)
- ✗ Athrawon yn ddefnyddio'r meysydd maent yn ystyried yn wan ynddo fel y maes sy'n cefnogi, ac felly bydd y maes ond yn cael ei ddatblygu ychydig.

Anifeiliaid

Defnyddir y strategaeth 'Darllen ar y Cyd' i gyflwyno stori 'Y Gryffalo'. Arsylwi ac adnabod y gwahaniaeth rhwng edrychiad a nodweddion yr anifeiliaid sy'n ymddangos yn y stori (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015). Rhodd hyn gyfle i'r dysgwyr "ddarllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnodi" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.20). Defnyddir Tacsonomeg Bloom (1956, dyfynnwyd yn Grigg, 2015) fel arweiniad i'r cwestiynu.

Amlygir i'r dysgwyr bod llyfrau gwybodaeth am anifeiliaid y goedwig yn brin yn y Gymraeg, a'u tasg yw i greu taflenni gwybodaeth am yr anifeiliaid. Gofynnir iddynt i greu'r taflen wybodaeth ar y cyfrifiadur "gan arbrofi â ffurfiau gwahanol ar sgrin, gan symud testun"(Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.25) Datblygir hefyd y sgil i "greu a golygu cydrannau aml-gyfrngol er mwyn datblygu testun" (LLC,2016). Defnyddir un o 'Sgerbydau Palmer' (2010) i "drefnu darn o ysgrifennu" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.25).

Cynefinoedd

Cychwynnir drwy fynd ar ymweliad i'r goedwig leol er mwyn arsylwi amryw o gynefinoedd. Pwrpas hyn fydd i gael y dysgwyr ddod i ddeall bod "gwahanol gynefinoedd yn cynnal gwahanol anifeiliaid" (APADGOS,2008, t. 27).

Gofynnir i'r dysgwyr "gyfrannu i drafodaethau" gan ystyried y gwahaniaeth rhwng gynefinoedd (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17). Yn dilyn hyn, gofynnir i'r dysgwyr ehangu o hyn drwy greu cynefin addas i anifail gan dewis a dethol amryw o adnoddau (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015). Bydd angen iddynt sicrhau bod maint y cynefin yn addas ar gyfer yr anifail drwy "ddefnyddio unedau safonol i fesur hyd a uchder" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015,t.35) gan ymchwilio i faint yr anifeiliaid drwy "ddefnyddio allweddeiriau i chwilio am wybodaeth" (LLC, 2016).

Y Goedwig Leol Blwyddyn 2

Addaswyd o (Barnes, 2015, t.70)

Planhigion

Eithr ar daith i'r goedwig i archwilio pa fathau o blanhigion sy'n tyfu yno e.e mwsogl, blodau gwyllt. Gosodir tasg i'r dysgwyr i "gasglu data, a'i drefnu'n grwpiau" (LLC, 2016) drwy dynnu lluniau o'r planhigion gydag iPad ac yna eu grwpio mewn grwpiau o'u dewis e.e. maint, lliw. Gofynnir i'r dysgwyr "fynegi barn, gan roi rhesymau" o blaid y grwpio (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14.).

Gwneir arbrawf tyfu planhigyn gan ddod i ddeall sut mae gwahanol dymhorau yn effeithio ar blanhigion. (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015) Gosodir un planhigyn mewn lle tywyll oer, un mewn lle golau cynnes a'u harsylwi dros gyfnod o amser. Sicrhreir ei fod yn brawf teg drwy "ddefnyddio unedau safonol i fesur cynhwysedd litrau" y dŵr a "chymharu'r tymheredd dyddiol drwy ddefnyddio thermometr". (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.35). Dod yn gyfarwydd gydag "amrywiaeth pethau byw" (APADGOS, 2008, t.27).

Cadwyni Bwyd

Edrychir ar beth mae gwahanol anifeiliaid yn y goedwig yn ei fwyta. Deallir bod "pethau byw yn dibynnu ar ei gilydd" (APADGOS, 2008, t. 27). Defnyddir stori 'Y Gryffalo' sy'n sôn am gadwyni bwyd drwy "ddwyn i gof ac ail-ddweud naratif a gwybodaeth" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.21).

Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm 'Cadwyn fwyd'. Caiff bob disgybl cerdyn gydag anifail/planhigyn arno ac yna bydd angen i'r dysgwyr greu cadwyn fwyd o'r cardiau gan "rannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau'r dasg" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17). Bydd angen iddynt weithio gyda phartner i ddatrys y broblem (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015). Bydd y dysgwyr yn datrys y broblem gan dal dwylo i ddangos strwythur y gadwyn fwyd. Yna eithr allan i iard yr ysgol i edrych am enghreifftiau o gadwyni bwyd a "chofnodi data - diagram" mewn diagram llif gan ddefnyddio arwyddion i ddangos llif y gadwyn fwyd (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.37).

Cyfngiadau

- ✗ Nifer yn gwneud cysylltiadau di-bwrpas a nodau aneglur sydd yn cyfyngu datblygiad y dysgwyr (Barnes, 2015).
- ✗ Os nad yw'r thema'n cael ei gynnllunio'n ofalus, nid yw'r dysgwyr yn mynd i gael y gorau allan o'r profiad.
- ✗ Datblygu nifer o feysydd ar yr un pryd yn golygu nad oes digon o amser i fynd i ddyfnder ym mhob maes.

Manteision

- ✓ Cyfle i ganolbwyntio ar un thema i addysgu sgiliau eang o'r meysydd ar draws y cwricwlwm.
- ✓ Cynllunio gofalus yn golygu bod y model yn ffordd effeithiol o ddal dychymyg dysgwyr (Estyn, 2016).
- ✓ Cyfle i ddatblygu sgiliau yn y meysydd nad ydynt yn hoff iawn ohono drwy thema diddorol â pherthnasol.
- ✓ Barnes (2015) yn argymhell "choose themes that are related to the rich resources of